# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Defnyddwyr

### 6 Chwefror 2023 - Cynhaliwyd trwy Meet

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Sioned Williams (SW) | Aelod o'r Senedd |
| Luke Young (LY) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Tim Mouncer (TM) | WHICH? |
| Sophie Beesley (SB) | WHICH? |
| Maggie Kinsey (MK) | Safonau Masnach Cymru |
| Sian Phipps (SP) | Panel Defnyddwyr Cyfathrebu |
| David Beer (DB) | Transport Focus |
| Jessica Tye (JT) | Awdurdod Safonau Hysbysebu |
| Rhodri Williams (RW) | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Lia Moutseloun(LM) | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Amy Dutton (AD) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Lindsey Kearton (LK) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Alun Evans (AE) | Cyngor ar Bopeth Cymru |

Cyflwyniad gan WHICH?

Cafwyd trafodaeth ar ôl y cyflwyniad wnaeth ganolbwyntio ar yr angen i gyflenwyr a llywodraethau/rheoleiddwyr wella’r broses o ymgysylltu i helpu unigolion a defnyddwyr i wybod yn well pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut i gael mynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth honno.

Cyflwynodd **LM** drafodaeth bellach ar sut y gallwn rannu a throshaenu data a gedwir ar ddefnyddwyr yng Nghymru yn well i fod yn fwy ataliol yn ein gweithredoedd i gefnogi defnyddwyr ac aelwydydd.

Trafododd **LY** y dangosfwrdd data diweddaraf gan Cyngor ar Bopeth Cymru

Linc i’r fersiwn Saesneg: bit.ly/CoLinreview2022

Linc i'r fersiwn Gymraeg: bit.ly/cipolwgar2022

Yn y drafodaeth ar gyflwyniad **LY** ystyriwyd yr angen ac anfantais sydd eisoes yn bodoli i ddefnyddwyr ledled Cymru ac a fydd yn debygol o barhau yn y dyfodol agos. Mae pwyntiau penodol ynghylch gwerth mesuryddion fel modd o reoli cyflenwadau cyfleustodau yn mynd ar goll yn y modd y cânt eu rheoli gan gyflenwyr ar hyn o bryd. Tynnodd **LM** sylw at y ffaith fod mesuryddion dŵr yn aml yn opsiwn rhatach i gartrefi sy'n defnyddio lefelau isel o ddŵr yn hytrach na'u bod heb fesurydd.

Cyflwynodd **RW** y gwaith y mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn galw amdano ynghylch tariffau cymdeithasol sengl a sut gyda beth sy'n ymddangos fel amharodrwydd gan DEFRA i barhau i ymrwymo i hyn y gallai defnyddwyr dŵr yng Nghymru weld colled bosibl o £1.5 miliwn ychwanegol.

## Y camau nesaf

Y grŵp i ystyried holi cwestiwn i Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha waith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo tariffau cymdeithasol i ddefnyddwyr yng Nghymru gan gynnwys sgyrsiau gyda chwmnïau a llwybrau gwybodaeth ac ymgysylltu'r llywodraeth.

I ystyried pa waith gallai'r grŵp ei wneud i dynnu sylw at yr argymhellion sy'n codi o ganfyddiadau WHICH? ar brisio mewn archfarchnadoedd – ystyried bod y grŵp yn codi hyn gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a chyflwyno canfyddiadau'r ymchwil i is-bwyllgor y Cabinet ar gostau byw.